



...gloywddwr Glaslyn



Pan lithrai
gloywddwr Glaslyn
i'r gwyl
fel cledd i'r wain...


**Y TRYDYDD
PENNILL**

*Tir Ynysfor sydd ar y
dde a Moel Ddu welir
yn y cefndir.*

*Llyn Glaslyn yw tarddle Afon Glaslyn
cyn llyfo drwy Lynnoedd Gwynant a
Dinas, heibio Beddgelert a Phont
Aberglaslyn. Codwyd ffermdy
gwreiddiol Ynysfor (a welir ar y dde)
tua 1700. Ehangwyd yn ystod y
bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna
codwyd plasdy newydd tua diwedd y
ganrif honno (isod). Wedyn,
defnyddiwyd yr hen ffermdy ar gyfer
y gweision a'r morwynion.*



Yr Ynysfor gwreiddiol



.. rhwng briglas Iwyni'r brain

Y Plas

Ceir sôn mewn hen bennill arall am 'Ynysfor'
'Ceilog bach yr Wyddfa yn canu ar y bryn
Hwyaid Aberglaslyn yn nofio ar y llyn.
Gwydda' Hafodgregog yn gweiddi wich di wach
A milgwn Jones **Ynysfor** ar ôl y llwynog bach....'

Pan gochai pell ffenestri'r plas
Rhwng briglas Iwyni'r brain,



Pan gaeai syrthni safnau'r cŵn,
Nosâi Ynysfor yn eu sŵn.